
BWLETIN POLISI CYTÛN

MAWRTH 2015



Y GYMRU A GAREM I GENEDLAETHAU'R DYFODOL



Roedd Cytûn yn bresennol wrth i adroddiad peilot [Cenedlaethau'r Dyfodol](#) gael ei lansio yn Stadiwm SWALEC ar 2il Mawrth. Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan yr actor Michael Sheen, llysgennad UNICEF ym Mhrydain. Fe gyfeiriodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, at gydweithio rhwng Bugeiliaid y Stryd a gwirfoddolwyr eraill gydag awdurdodau statudol yn Abertawe fel enghraifft o'r ysbryd cydlynus a hybir gan y broses hon a'r ddeddf sy'n dod.

Mae [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn dychwelyd i'r

Cynulliad ar Ddydd Mawrth 10fed Mawrth, ac o'i dderbyn fe fyddai'n sicrhau fod y sector cyhoeddus yn cynllunio gyda'u llygaid ar saith nod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:

- **Cymru lewyrchus.** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
- **Cymru gydnherth.** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- **Cymru iachach.** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechedd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal.** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus.** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae cyfeirio'n benodol at newid hinsawdd yn y ddau gymal cyntaf, a'r nod olaf yn ei grynsyth, yn welliannau a gynigir gan y llywodraeth yn dilyn gwaith gan gynghair o fudiadau, y Gynghair Datblygu Cynaliadwy – sy'n cynnwys Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund, Masnach Deg Cymru ac eraill. Gallwch ddarllen mwy yn www.shapingfuturewales.org

Yn dilyn y drafodaeth bwyllgor anodd ym mis Chwefror, mae nifer o'r gwelliannau y tro hwn wedi'u cynnig gan y llywodraeth ac un neu fwy o'r gwrthbleidiau ar y cyd, gan awgrymu y ceir y maen i'r wal yn y drafodaeth nesaf.

DYFODOL LLWYDDIANNUS: ADRODDIAD DONALDSON

Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Graham Donaldson am ddyfodol cwricwlwm ysgolion yng Nghymru. Mae'n adroddiad pellgyrhaeddol, a seiliwyd yn rhannol ar ymatebion rhyw 700 o bobl ledled Cymru, eu hanner yn blant a phobl ifanc. Gellir darllen dadansoddiad o'r ymatebion [yma](#).

Mae'r Athro Donaldson yn cynnig mai dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Er cyflawni hynny, mae'n awgrymu y dylai plant rhwng 3 ac 16 mlwydd oed gael eu dysgu nid trwy gyfrwng y 'pynciau' traddodiadol ond trwy chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad':

- Celfyddydau mynegiannol
- leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Iechyd a lles
- Mathemateg a rhifedd
- Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

O fewn y maes Dyniaethau, byddai Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 mlwydd oed (t. 61), ac nid oes unrhyw argymhelliad i newid rôl y Cynghorau Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) sirol na'r hawl i rieni dynnu eu plant o wersi AG. Nid oes esboniad manwl ar sut y byddai hyn yn gweithio o dan y drefn newydd.

O ran y Gymraeg, argymhellir "cryfhau" lle'r iaith yn y cwricwlwm, gyda dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn dechrau'n gynharach, gyda thrydedd iaith felly yn dilyn yn gynt. Byddai'r pwyslais ar sgiliau llafar a chyfathrebu bob dydd er mwyn hybu perthnasedd y Gymraeg i ddisgyblion. Wrth ymateb, fe ddywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg, yn y Cynulliad ar 4ydd Mawrth fod y drefn bresennol o ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith "wedi torri".

Mae Donaldson yn awgrymu y dylai dysgu gan blant a phobl ifanc gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm drwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r holl athrawon: llythrennedd; rhifedd; a chymhwysedd digidol.

Dylai'r cwricwlwm cenedlaethol newydd gael ei drefnu ar ffurf continwmm dysgu rhwng 3 ac 16 oed heb gyfnodau na chyfnodau allweddol. Dylai dilyniant gael ei ddisgrifio mewn perthynas â chontinwmm dysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad o'r adeg y mae plentyn yn dechrau mewn ysgol hyd ddiwedd ei addysg statudol. Dylai dilyniant gael ei ddangos drwy Gamau Cynnydd ar bum pwynt yn y continwmm dysgu sy'n cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Fe fyddai cwricwlwm wedi'i addasu fel hyn yn fwy hyblyg o ran dulliau dysgu ac asesu ac o ran trefnu amserlenni ysgolion. Fe fyddai'n cynnig mwy o ryddid proffesiynol i athrawon o fewn fframwaith atebolrwydd. Dylai fod yn gymharol hawdd i gymhwyso'r cwricwlwm newydd ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar yr un pryd, ond yn annibynnol ar Donaldson, fe gyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad [Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel](#). Yn anorfod, mae argymhellion yr adroddiad hwnnw yn cyfeirio at welliannau posibl o fewn y cwricwlwm presennol. Tra bod Donaldson yn cymeradwyo cynnig profiadau eang megis teithiau addysgol, mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at anawsterau gyda deall dibenion addysgol rhai gwibdeithiau, ac at anawsterau rhieni i dalu'r costau (gwirfoddol i fod) sydd ynghlwm wrthynt.

PWERAU AT BWRPAS: PAPUR GWYN AM DDATGANOLI

Dadansoddiad cychwynnol gan Gethin Rhys

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn hwn gan Lywodraeth San Steffan fel canlyniad i ‘Broses Gŵyl Ddewi’, oedd yn cynnwys ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru, Llywydd y Cynulliad a phleidiau gwleidyddol Cymru a gynrychiolir yn San Steffan (ond nid pleidiau’r Cynulliad). Fe luniwyd yr adroddiad ar dipyn o frys, rhwng refferendwm yr Alban a Dydd Gŵyl Ddewi, ac mae’r brys hwnnw i’w weld yn y nifer o argymhellion ar gyfer gwaith pellach, a’r gwallau argraffu a chyfieithu sy’n britho’r trosiad Cymraeg.

Mae’n anelu at batrwm i weithredu hynny o argymhellion Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru (a gyhoeddodd adroddiadau yn 2012 a 2014) y gallai pleidiau San Steffan oll gytuno arnynt, ac sydd heb eu gweithredu eisoes. Mae nifer o’r rhain yn ymwneud â gwell cyfathrebu rhwng llywodraeth San Steffan a’r llywodraethau datganoledig – argymhellion a eiliwyd mewn sawl achos gan Gomisiwn Smith yn yr Alban. Mae eraill yn newidiadau lled dechnegol eu natur.

Y prif newid cyfansoddiadol fyddai newid y drefn ddeddfwriaethol ar gyfer datganoli i Gymru yn drefn ‘pwerau cadw’, lle y datganolir popeth nad yw wedi ei gadw gan San Steffan, yn hytrach na’r gwrthwyneb. Fe fyddai ail-wampio’r ddeddfwriaeth yn y ffordd hon yn broses gymhleth, ac fe fydd yn gweld diwedd ar y meysydd ‘tawel’ nas crybwyllwyd y naill ffordd na’r llall yn Neddfau Cymru hyd yma. Mae’r adroddiad yn glir mai un cymhelliad dros wneud hyn yw rhwystro’r Cynulliad rhag ehangu ei bwerau trwy fanteisio ar y tawelwch hwn, fel y gwnaeth – gyda chymeradwyaeth y Goruchaf Lys yn y pen draw - yn achos Deddf y Sector Amaethyddol (para 2.1.16-2.1.18).

Mae’r adroddiad yn argymhell ychwanegu at rymoedd datganoledig mewn ambell faes, megis trwyddedu archwilio am nwy ac olew, a chaniatáu datblygu prosiectau cynhyrchu ynni hyd at 350MW. Ond fe dynnir yn ôl gallu llywodraeth leol yng Nghymru i reoli cynllunio adeiladau cysylltiedig â phwerdai dros 350MW, ac argymhell ei roi yn nwylo San Steffan. Ar y llaw arall, fe ddatganolir rheoliadau adeiladu dros yr un adeiladau i lywodraeth Cymru (para 2.4.2-2.4.11).

Mae ambell faes lle mae brys llunio’r ddogfen yn arwain at amwysedd. Er enghraifft, mae para 2.11.12 yn argymhell datganoli mwy o bwerau ym maes cydraddoldeb, tra bod Atodiad B – sy’n cynnwys rhestr enghreifftiol o bwerau y byddai San Steffan yn eu cadw – yn awgrymu y byddai maes “cyfleoedd cyfartal” yn ei gryswth yn eiddo i San Steffan. Mae o hyd llawer o ‘feysydd tawel’ nad oes cyfeiriad atynt yr un ffordd na’r llall – er enghraifft fe gedwir pwerau dros gyflogau athrawon yn San Steffan, ond ni chyfeirir at yr isafswm cyflog statudol o gwbl. Bydd angen llawer mwy o waith i lunio deddfwriaeth ddrafft y gellid ei dadansoddi’n drylwyr.

Mae’r adroddiad yn ymrwymo i barhau i ariannu Cymru trwy fformiwla Barnett – sy’n clymu grant y Cynulliad o goffrau’r DU ar lefelau gwariant yn Lloegr ar y meysydd datganoledig – ond gyda “terfyn isaf ar gyfer lefel yr ariannu cymharol a gaiff Llywodraeth Cymru ganddi” (para 4.9). Nid oes unrhyw sôn am sut y penderfynir ar y terfyn hwn, nac ai swm penodol o arian, cyfradd y pen, neu gyfradd o gyfanswm gwariant y llywodraeth ganolog fyddai hyn.

Efallai mai’r paragraff mwyaf arwyddocaol yw 4.12, lle y dywedir – heb fanylu – y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyhoeddi Bondiau i’w benthycu ar gyfer gwariant cyfalaf, a hynny yn ychwanegol at y pwerau benthycu a gynhwysir yn Neddf Cymru 2014. Nid oes sôn y byddai hyn yn amodol ar gael caniatâd mewn refferendwm i ddatganoli cyfran o Dreth Incwm. Gan ddibynnu ar unrhyw amodau gan y Trysorlys, fe allai hyn gynyddu hyblygrwydd economaidd Llywodraeth Cymru yn sylweddol dros y cyfnod nesaf. Yn y mater hwn, fel cymaint o rai eraill, rhaid aros am ragor o fanylion.

GWRTHSEFYLL TRAIS YN ERBYN MENYWOD – OND NID PLANT

Yn dilyn dadl deimladwy, pleidleisiodd aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3ydd Mawrth o 36-16 yn erbyn ymgais i gynnwys gwaharddiad ar daro plant yn y [Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#). Byddai'r gwelliant wedi tynnu'r amddiffyniad fod rhiant neu warchodwr sydd wedi'i gyhuddo o daro plentyn wedi bod yn gweithredu "cosb resymol".

Roedd Archesgob Cymru, yr actor Michael Sheen – yn siarad fel Llysgennad UNICEF yn y DU – a llawer o elusennau plant wedi gofyn am gefnogaeth i'r gwelliant. Fe ddywedodd rhan fwy'r ACau a siaradodd yn erbyn y gwelliant eu bod o blaid newid y gyfraith fel hyn, ond mewn deddfwriaeth ar wahân ac yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Bu ychydig o ACau yn amddiffyn hawl rhieni i gosbi eu plant yn gorfforol. Dywedodd Mohammad Asghar AC fod gan famau "hawl ddwyfol" i ddisgyblu eu plant, ac awgrymodd fod radicaleiddio mewn rhai cymunedau yn ganlyniad i ddiffyg disgyblaeth o'r fath. Bu rhai ACau yn anghymeradwyo hyn, ac ni siaradodd neb arall o blaid y safbwynt hwnnw.

Roedd nifer o ACau yn bryderus y byddai cynnwys y cymal newydd wedi arwain at gyfeirio'r Bil cyfan at y Goruchaf Lys, gan nad yw'n eglur fod gan y Cynulliad Cenedlaethol y grym i newid y gyfraith fel hyn dan ei bwerau presennol. Bwriad y Bil sy'n weddill yw sicrhau ffocws ar draws y sector gyhoeddus ar atal trais o'r fath, gwarchod y sawl sy'n dioddef o'i herwydd a chynnal pobl a effeithir gan hyn. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau wedi eu hanelu at atal cam-drin yn y cartref, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru sicrhau fod sefydliadau addysgol – ysgolion ac addysg uwch – yn cymryd camau i gynnwys addysg briodol yn eu meysydd llafur i wrthsefyll y broblem hon.

Cynhelir dadl olaf am y Bil (Cam 4) ymhen ychydig wythnosau.

AMSER AIL-FEDDWL AM GOSBI YMGEISWYR BUDD-DALIADAU

Mae'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac Eglwys yr Alban wedi cyhoeddi adroddiad yn amlinellu achos diwinyddol a dyngarol yn erbyn yr arfer presennol o gosbi ymgeiswyr am fudd-daliadau am fethiannau cymharol fân megis cyrraedd apwyntiad yn hwyr neu fethu â chyflawni amodau eraill sydd ynghlwm wrth y budd-daliadau.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r caledi achosir i ymgeiswyr trwy'r 'sanctsiynau' hyn, ac yn cynnwys astudiaethau achos o weldydd Prydain, gan gynnwys Cymru. Mae'n cysylltu'r drefn sanctsiynau gyda'r twf mewn Banciau Bwyd, ac yn cyflwyno seiliau Beiblaidd am ofyn am newid polisi.

Nid oes ystadegau penodol am sanctsiynau yng Nghymru yn yr adroddiad gan i geisiadau lu dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fethu â derbyn ymateb. Dywed yr Eglwys yng Nghymru ei bod yn dilyn y mater hwn.

Gellir darllen yr adroddiad cyflawn yn Saesneg [yma](#), a cheir crynodeb Cymraeg [yma](#).

GWYBODAETH AM Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH CYMRU

Gallwch ddarllen ein canllaw am sut i gyrchu gwybodaeth am weithrediadau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru ym [Mwletin Polisi fis Ionawr](#) ar wefan Cytûn.

Yn ogystal â'r gwefannau a nodir yno, cewch fynediad i gynnyrch Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y wefan <http://pigion.wordpress.com>

Cyhoeddir Bwletin Polisi Ebrill 2015 tua diwedd tymor y Cynulliad ar 26ain Mawrth.

ETHOLIAD 2015 – CEISIO LLES PAWB

Mae nifer cynyddol o sefydliadau eglwysig wedi cyhoeddi eu ‘manifesto’ ac arweiniad i’w haelodau wrth i ni agosáu at etholiad San Steffan ar **Ddydd Iau 7fed Mai**. Mae llawer yn defnyddio’r cysyniad o “geisio lles pawb” ac yn rhestru’r cwestiynau yr hoffent i ymgeiswyr eu hwynebu, a’r math o gymdeithas yr hoffent weld ei datblygu gan y sawl a etholir.

Adnoddau’r Eglwysi at yr Etholiad Cyffredinol

Yn ogystal â dogfen drafod Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, [Gweledigaeth 2020 – Y Gymdeithas Dda](#), ceir lluo o adnoddau eraill bellach ar y wefan <https://ctbielections.org.uk>.

Yn eu plith mae:

- **Faith in Politics** gan Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Eglwys yr Alban. Ceir papurau briffio cryno am y materion etholiadol allweddol. Mae argraffiad (Saesneg) wedi’i deilwra ar gyfer Cymru ar wefan JPIT [yma](#). Gallwch hefyd archebu’r pecyn **Think, Pray, Vote** sy’n cynnwys pedair ffilm fer am gyfiawnder, heddwch, gwirionedd a lles, nodiadau Beiblaidd a myfyrdodau.
- [Llythyr Esgobion yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr](#) yn Gymraeg a Saesneg.
- [Black Church Political Mobilisation: A Manifesto for Action](#)
- [Papur briffio newydd am anghyfartaledd economaidd ym Mhrydain](#) gan Quaker Peace and Social Witness, sy’n canolbwyntio ar sut allai newidiadau polisi wella anghyfartaledd.
- [Pwy yw fy nghymydog?](#) Llythyr bugeiliol esgobion Eglwys Loegr.
- [Show up](#): Mae’r ymgyrch hon yn anelu at helpu Cristnogion i ymwneud yn gadarnhaol â’r etholiad a wedi hynny. Wedi’i drefnu gan Christians in Politics, mae’r wefan yn cynnwys detholiad o fideos, adnoddau a gwybodaeth am y prif bleidiau gwleidyddol a’u canghennau Cristnogol, a sut y gall Cristnogion ymwneud â nhw.
- Adnoddau [CARE](#), [y Gynghrair Efengylaidd](#), [Cymorth Cristnogol](#), [CAFOD/Caritas](#) ac eraill.

Cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr lleol

Fe fu grwpiau Cytûn ar flaen y gad gyda threfnu cyfarfodydd cyhoeddus wrth i’r etholiad agosáu. Gan fod y dyddiad eisoes yn hysbys, nawr yw’r amser i drefnu! Ceir canllaw ar gyfer trefnu cyfarfod cyhoeddus yn: <https://ctbielections.org.uk/how-to-organise-a-hustings>
Mae’r eglwysi yng Nghymru wedi cychwyn hashnod **#ChurchHustingsWales** fel y gall eglwysi Drydar am eu cyfarfodydd. Defnyddiwch Twitter, felly, er hyrwyddo’ch cyfarfodydd.

Mae’n etholiad i bawb

Pan ddywedodd Michelle wrth bobl eraill ei bod hi’n bwriadu cynnal bore coffi ar gyfer ymgeisydd fel rhan o’r ymgyrch **Dwi’n Un**, fe ddywedon nhw wrthi ei bod hi’n gwastraffu ei hamser. Roedd Michelle wedi bod wrthi’n ddiwyd yn llofnodi deisebau ac yn e-bostio ei AS dros y blynyddoedd, ond doedd hi erioed wedi cwrdd â gwleidydd wyneb yn wyneb i ofyn am eu cefnogaeth. Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn annog ei haelodau i drefnu **bore coffi** gydag ymgeisydd i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn eich cymuned. Mae’n syniad y gallai eraill ddymuno ei efelychu.

Mae llawer o bobl nad ydynt eto wedi cofrestru i bleidleisio. Un rheswm am hynny yw’r newid yn y drefn sy’n golygu fod angen i bob unigolyn ymgofrestru, yn hytrach na bod un yn gwneud hynny ar ran teulu cyfan. Mae ymdrechion ar y gweill i gofrestru’r etholwyr coll. Mae Dinasyddion Caerdydd yn gweithio gyda 50 o arweinwyr y gymuned Mwslimaidd i gofrestru cymaint o ddinasyddion ag yn bosibl ar Ddydd Sadwrn Mawrth 7fed yn Cathays, Caerdydd.

Lle bynnag yr ydych yn byw, gallwch gofrestru ar-lein trwy fynd i <https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio>

TAI A CHARTREFI – NEWIDIADAU AR DROED

Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Fil Rhentu Cartrefi Cymru](#). O'i ddeddfu, fe fyddai hwn yn cyflwyno newidiadau sylweddol o ran cytundebau rhentu rhwng landlordiaid a thenantiaid. Byddai hyn yn effeithio ar bob landlord – gan gynnwys cyrff crefyddol sy'n rhentu tai – a phob tenant – gan gynnwys llawer o aelodau ein cymunedau ffydd.

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yn croesawu cyfraniadau **erbyn 27ain Mawrth**. Ceir manylion pellach [yma](#).


Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn cynnal dau ymgyngoriad arall parthed agweddau ar ddarparu tai a chartrefi. Yn gyntaf, mae'n ymgyngori ar Ganllawiau diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Mae'r Canllawiau hyn yn penderfynu pwy sydd â hawl ar lety cymdeithasol, dan ba amgylchiadau ac ym mha drefn y dylid dyrannu llety sydd ar gael. Fe fydd y manylion hyn o ddiddordeb arbennig i bobl ddigartref a phawb sy'n gweithio gyda nhw, neu gyda phobl sydd mewn llety annigonol neu anniogel. Gofynnir am ymateb erbyn **23ain Mawrth**. Ceir manylion pellach [yma](#).

Mae ail ymgyngoriad ynghylch y Papur Gwyn am gynigion Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth ar y cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Dros oddeutu'r tri-deg mlynedd diwethaf, mae'r cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael wedi caniatáu i nifer o denantiaid tai cymdeithasol brynu eu cartrefi gan eu Hawdurdod Lleol neu eu Cymdeithas Dai. O ganlyniad, bu gostyngiad sylweddol yn ein stoc tai cymdeithasol. Mae'r gostyngiad yn y tai rhent sydd ar gael i helpu pobl sydd ar y rhestrau aros yn ychwanegu at y pwysau ar y cyflenwad tai ac ar allu pobl i ddod o hyd i gartref y gallant ei fforddio.

Yn yr hinsawdd ariannol presennol, o fewn y maes tai, mae elfennau economaidd ac elfennau eraill wedi cyfuno i roi pwysau sylweddol ar y cyflenwad tai. Mae'r pwysau yn cael effaith ar nifer o bobl, ond mae'r effaith yn arbennig o amlwg ar y bobl hynny lle nad yw'n bosib i'r farchnad dai fodloni eu hanghenion. Nid yw rhai pobl yn gallu fforddio prynu tŷ, na rhentu tŷ gan landlord preifat. Maent yn dibynnu ar dai cymdeithasol neu ddarpariaeth arall sydd â chymhorthdal. Mae tai cymdeithasol yn gymorth hynod bwysig.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno opsiynau wedi'u hanelu at amddiffyn y stoc tai cymdeithasol rhag lleihau ymhellach. Un ohonynt yw rhwystro'r Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael yn llwyr. Gofynnir am ymatebion erbyn **16eg Ebrill**. Gweler y manylion [yma](#).

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTŪN



Er mwyn trafod unrhyw fater yn y Bwletin hwn, neu ceisio cymorth gan y Swyddog Polisi, dyma'r manylion cyswllt:

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig:

"Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 5ed Mawrth 2015.